

Alun Davies AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau
Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: MA-P/ARD/4358/17

At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru

Copi at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstablaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

19 Rhagfyr 2017

Annwyl Gomisiynwyr,

Setliad Dros Dro yr Heddlu 2018-19

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch y Setliad Dros Dro ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2018-19.

Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref yn nodi, wrth gymryd cydrannau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru at ei gilydd, y bydd Heddlu Cymru i gyd yn derbyn setliad gwastad yn 2018-19 o gymharu â flwyddyn yma.

Yn **Atodiad A** ceir manylion y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae'r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a'r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 16 Ionawr 2018. Dylid anfon ymatebion at:

Simon Edwards, Yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: LGFPSettlement@.llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd sylwadau a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, i gael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr ymatebion i gyd cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2018-19 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Mae disgwyl i'r ddadl ar yr adroddiad hwn gael ei gynnal yn y Cynulliad yn Chwefror 2018.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

Alun Davies AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2018-19

Tabl 1: Aseiad o Wariant Safonol (£m)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Dyfed-Powys	33.863	34.488	35.151	35.860
Gwent	50.485	51.419	52.407	53.462
Gogledd Cymru	48.762	49.665	50.621	51.654
De Cymru	117.702	119.882	122.186	124.630
Cyfanswm	250.812	255.453	260.364	265.606

Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Dyfed-Powys	12.788	12.895	12.870	13.101
Gwent	29.696	30.107	30.583	31.083
Gogledd Cymru	21.308	21.578	21.907	22.122
De Cymru	71.218	72.177	73.341	74.594
Cyfanswm	135.010	136.757	138.700	140.900

Tabl 3: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)¹

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Dyfed-Powys	37.511	37.117	36.443	36.212
Gwent	43.220	42.393	40.904	40.404
Gogledd Cymru	51.854	51.167	49.821	49.606
De Cymru	89.338	87.463	84.066	82.812
Cyfanswm	221.923	218.140	211.234	209.034

Tabl 4: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Dyfed-Powys	50.299	50.012	49.313	49.313
Gwent	72.917	72.501	71.487	71.487
Gogledd Cymru	73.162	72.745	71.728	71.728
De Cymru	160.555	159.639	157.407	157.407
Cyfanswm	356.933	354.897	349.934	349.934

Tabl 5: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19
Dyfed-Powys	-	-	-	0.0%
Gwent	-	-	-	0.0%
Gogledd Cymru	-	-	-	0.0%
De Cymru	-	-	-	0.0%
Cyfanswm	-	-	-	0.0%

Nodiadau:

¹ Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 Adroddiad Grant yr Heddlu, sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' a 'Ychwanegu rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael